





COMMUNITAS
CYMRU



# CREU CONWY
# CREU'R SBARDUN

## Gwerthusiad o effaith gymdeithasol
## - Crynodeb –









DIWYLLIANT CONWY CULTURE

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL


NYC
shoes
MY STYLE
FASHION WEEK
fashion bible
cool
VIP
stiletto
Jewels
BIJOUX
street wear
LUXE
UNSEEN
#hip
FIFTIES FASHION LOOKS

# Crynodeb

## Cefndir a nod

**Creu Conwy – Creu'r Sbardun** yw strategaeth ddiwylliannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, sydd â'r nod o roi'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth wrth galon bywyd cymunedol yn Sir Conwy. Amserlen wreiddiol y strategaeth oedd 2021 i 2026. Mae wedi'i hymestyn i 2028 i sicrhau bod yr amcanion yn cael eu cyflawni, er gwaethaf yr heriau economaidd.

Trwy Creu Conwy, mae'r Cyngor yn credu yng ngrym y celfyddydau, diwylliant, a chreadigrwydd i gefnogi lles unigolion a'r gymuned, ac y gall y sector diwylliannol ddatblygu datrysiadau creadigol i'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau.

Ariennir cyflwyniad strategaeth Creu Conwy yn bennaf drwy gyllid grant, gan gynnwys £1.1m o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, yn dilyn derbyn cyllid Adfywio Cymunedol i asesu dichonoldeb y gwaith sydd wedi'i gynllunio. Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU hefyd yn cefnogi cyflawni Strategaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Conwy 2021-2026.

I sicrhau fod diwylliant a chreadigrwydd yn llinyn cyffredin drwy bopeth sy'n digwydd yng Nghonwy, dadleuir yn strategaeth Creu Conwy fod angen gwerthfawrogi a rhoi adnoddau i'r sector diwylliannol am ei werth cynhenid ei hun ac fel maes pwysig o waith atal - lleihau costau a phwysau yn ddiweddarach ar gyfer gwasanaethau eraill y Cyngor a gwasanaethau iechyd[1].

Comisiynwyd Communitas Cymru gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ymgymryd â'r gwerthusiad hwn i gasglu tystiolaeth o effaith buddsoddiad Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ynghyd â Creu Conwy, strategaeth ddiwylliannol y Cyngor.

**Lluniau clawr blaen:**

Dde uchaf © Gini Rivers
Canol ar y dde #1 © Claire Heely
Gwaelod ar y dde © Gini Rivers
Gwaelod chwith © Anthony Harrison

1 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (2021), Creu Conwy: *creu sbardun*, t.2


© Wynn Owen

## Methodoleg

Mae'r gwerthusiad hwn wedi'i gynllunio'n ofalus i sicrhau ei fod â thystiolaeth ddigonol ac yn cynnig argymhellion y gellir gweithredu arnynt ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Rydym wedi defnyddio dyluniad dulliau cymysg, gan gyd-greu damcaniaeth newid ar gyfer datblygu fframwaith gwerthuso, a thriongli mewnwelediadau o ddata a gasglwyd drwy'r prosiectau a'r gweithgareddau, data o werthusiadau prosiect penodol, a chyfweliadau lled-strwythuredig.

Trwy'r cyfuniad hwn o ddulliau, ein nod oedd:

1. Disgrifio'r hyn mae Creu Conwy yn gobeithio ei gyflawni a'r gweithgareddau a fydd yn cyfrannu tuag at ei gyflawni.
2. Diffinio cwmpas a chyd-destun Creu Conwy.
3. Datblygu'r capasiti a'r gallu i werthuso o fewn timau prosiect Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy drwy gynhyrchu canllawiau ac offer gwerthuso.
4. Dysgu o waith gwerthuswyr eraill.
5. Deall effaith Creu Conwy.

Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd yn cyd-weddu ac yn gyd-gysylltiedig, gyda'r bwriad o ddarparu dealltwriaeth holistig a thystiolaeth o effaith buddsoddiad Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a Creu Conwy.



**Gweledigaeth**

## MAE DIWYLLIANT YN SBARDUN AR GYFER TWF ECONOMAIDD, LLES A CHYSYLLTIAD

**Egwyddorion**

| ANTURUS | CHWAREUS | CYSYLLTIEDIG |
|---|---|---|
| Mae pobl yn teimlo'n hyderus ac yn gyffrous am fynd ar anturiaethau diwylliannol | Mae diwylliant yn hygyrch ac yn berthnasol - mae'n gwneud i bobl stopio, gwenu a chymryd rhan | Mae cymunedau a'r sector diwylliannol yn cydweithio'n effeithiol mewn partneriaeth i godi proffil cynnig diwylliannol Conwy |

**Tybiaethau**

- Cydweithio gyda chymunedau Conwy (a'i holl amrywiaeth) i ddatblygu prosiectau sy'n gwneud gwahaniaeth
- Mae diwylliant yn cael ei werthfawrogi'n iawn ac yn cael digon o adnoddau yn y tymor hir
- Mae pobl yn gwybod beth yw diwylliant
- Mae pawb yn malio am ddiwylliant
- Mae diwylliant yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol
- Mae diwylliant yn lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol ac iechyd ac yn cefnogi cydlyniant cymunedol

- Mae pawb yn gweithio tuag at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd
- Rhaid ei ddarparu mewn partneriaeth
- Mae pobl greadigol yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael cymhelliant i gefnogi darpariaeth y strategaeth
- Mae diwylliant yn offeryn i ailgysylltu ac ailadeiladu ein heconomi mewn modd cynaliadwy
- Mae diwylliant a chreadigrwydd yn edefyn cyffredin sy'n rhedeg drwy bopeth sy'n digwydd yma yng Nghonwy
- Mae pobl yn ddatblygedig

**Pileri** / **Canlyniadau**

| RHAGLEN | | | LLEOEDD | | | POBL | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae diwylliant yn hygyrch i bawb ac yn rhan o fywyd bob dydd yng Nghonwy | Bydd ymwelwyr i Gonwy yn cael eu rhyfeddu gan ddiwylliant Conwy | Mae cynnig diwylliannol Conwy yn unigryw ac ar flaen y gad | Caiff y tirweddau a'r adeiladau neilltuol sy'n gwneud Conwy'n unigryw eu dathlu | Trefnir digwyddiadau ysbrydoledig i annog pobl leol i edrych ymlaen a chymryd rhan | Cefnogir adferiad a lles cymunedol drwy ddiwylliant | Mae'r sector diwylliant yn gysylltiedig | Mae cyfranogiad diwylliannol yn arwain at wella lles ac yn lleihau'r angen am wasanaethau cymdeithasol ac iechyd | Cefnogir sector creadigol ffyniannus ac effeithiol |


**Ffrydiau Gwaith** / **Themâu**

| Cysylltu cymunedau drwy raglenni diwylliannol anturus a chwareus | | | Gyrru twf economaidd drwy adfywiad diwylliannol | | | Cefnogi lles a mynediad cyfartal | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynulleidfaoedd Iau | Pontio'r Cenedlaethau | Gwirfoddoli | Model Sbardunau Diwylliannol | Diwylliant a'r Amgylchedd | Yr iaith Gymraeg a chroeso nodedig Conwy | Iechyd a Lles | Meithrin Capasiti Creadigol |
| Twristiaeth Ddiwylliannol | Arddangosfeydd | Digwyddiadau a gweithdai | Asedau diwylliannol - llyfrgelloedd, amgueddfeydd, safleoedd treftadaeth, theatrau, orielau | | Asedau cymunedol - eglwys, ysgol Sul, tafarn | Gofalu bod lleisiau'n cael eu clywed | Sgiliau a datblygiad twristiaeth |

## PARTNERIAETH CREU CONWY

**Prosiectau**

| Amdani! | Creu Conwy Ifanc | Gigs y Gaeaf | Llenwi | Timoedd y Dref | Llyfrgelloedd fel Canolfannau Cymunedol | Creu Conwy Cymunedol | Taith |
|---|---|---|---|---|---|---|---|






Dewis sydyn

# Crynodeb o weithgarwch Creu Conwy

Mae'r canlynol yn grynodeb o'r cynllun cyflawni a'r gweithgarwch sydd wedi'i gefnogi drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU:

## 1. Rhaglen Uchelgeisiol o weithgareddau diwylliannol a phrosiectau seilwaith ar draws Sir Conwy

- Rhaglen ddiwylliannol sylweddol o ddigwyddiadau, gweithgareddau, arddangosfeydd, perfformiadau, a gweithdai mewn ystod o leoliadau yn y gymuned wedi'u dylunio i wella hygyrchedd a chael gwared ar rwystrau i gyfranogiad.

- Llenwi, prosiect 'Arwyddion Cyrchfannau' a ariennir drwy Gynllun Y Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru. Pum gosodiad gwaith celf (wedi'u lleoli yn Abergele, Bae Colwyn, Conwy, Llandudno a Llanrwst) sy'n dathlu ymdeimlad o le a'r Gymraeg.

- Seilwaith digwyddiadau symudol newydd (llwyfannau ac offer arall) sydd ar gael i'w logi gan y gymuned i alluogi digwyddiadau hygyrch o safon uchel.

- Casys arddangos newydd fel bod eitemau amgueddfa o ddiddordeb a phwysigrwydd lleol ar gael i'r gymuned, gan gefnogi ymdeimlad o gysylltiad a lle.



© Pea Restall

## 2. Rhaglenni adfywio diwylliannol wedi'u datblygu a'u darparu ar lefel gymunedol gan 'Dimau Tref' traws-sector

- Cefnogi grwpiau a arweinir yn lleol, sy'n cynnwys busnesau lleol, arweinwyr cymunedol a phobl greadigol i wneud defnydd o bŵer trawsnewidiol diwylliant ym mhum tref fwyaf Conwy (Abergele, Bae Colwyn, Conwy, Llandudno a Llanrwst) a thu hwnt - trwy fodel canolfan a lloerennau.

- Defnyddio dulliau creu lleoedd i gyflawni prosiectau sy'n ymateb i ddiddordeb ac angen lleol, cynyddu nifer yr ymwelwyr, gwella bywiogrwydd a chyfrannu at well canfyddiad o le ar draws pum tref fwyaf Conwy a'r ardaloedd cyfagos.





© Golygfa Gwydir

### 3. Adeiladu cydnerthedd sefydliadau diwylliannol drwy ddatblygu capasiti ar gyfer 'Timau Tref', a sefydliadau diwylliannol annibynnol a chymunedol, gan gynnwys llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac orielau cymunedol

- Cyfleoedd hyfforddi, rhwydweithio a chyfnewid gwybodaeth, gan gynnwys teithiau dysgu ac ymweliadau ymgyfarwyddo, digwyddiadau cydweithio, a recriwtio gwirfoddolwyr.

- Yn ogystal, cefnogi dysgu gan gymheiriaid rhwng sefydliadau i alluogi rhannu gwybodaeth a chydweithio effeithiol o fewn y sector diwylliannol annibynnol.

### 4. Meithrin Sgiliau a Chymorth Busnes

- Cyfleoedd hyfforddi, rhwydweithio a datblygu ar gyfer gweithwyr llawrydd creadigol.

- Saith prentisiaeth ddiwylliannol i gefnogi talent sydd wedi'i feithrin yn lleol, a pharatoi'r genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol, gan hybu cyflogadwyedd, a chefnogi mwy o bobl i gael gwaith yn y diwydiannau creadigol.

- Datblygu cynnig Archifau Conwy i gefnogi busnesau lleol i ddefnyddio treftadaeth ddiwylliannol i adeiladu brand unigryw ac ymdeimlad o le.



© White Rhino Productions




© Tony Edwards

## 5. Llesiant drwy Ddiwylliant

- Trwy Taith – Teithiau Creadigol at Les, a gyda chyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru, datblygu a chyflwyno rhaglen o weithgarwch dan arweiniad artistiaid i gynnig llwybr i lesiant i bobl sy'n profi anawsterau iechyd meddwl.

- Gweithio gyda phartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol i dreialu dulliau newydd o atgyfeirio a phresgripsiynu cymdeithasol gan gefnogi'r agenda ataliol gyda'r nod o leihau'r angen am ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol.

## 6. Llyfrgelloedd fel Canolfannau Cymunedol

- Gwaith partneriaeth a gwelliannau i'r seilwaith digidol i ddarparu model 'Llyfrgelloedd fel Canolfannau Cymunedol' sy'n cefnogi cynhwysiant digidol, mynediad at wasanaethau a chyfleoedd cyfranogiad diwylliannol trwy ein hadeiladau llyfrgell a'n llyfrgelloedd i'r cartref, symudol a digidol.






## Casgliadau

Mae'r gwerthusiad hwn wedi dangos bod bodolaeth strategaeth ddiwylliannol yn ysgogi sgwrsio am ddiwylliant - beth ydyw, yr hyn rydym ei eisiau ar gyfer diwylliant yng Nghonwy a phwy sy'n mynd i'w alluogi. Mae wedi codi proffil pwysigrwydd diwylliant a'i rôl mewn cymdeithas. Mae hefyd wedi darparu cyfeiriad mwy diffiniedig ar gyfer yr holl randdeiliaid.

Mae'r seilwaith sydd wedi'i sefydlu – boed yn fuddsoddiad cyfalaf yn y seilwaith ffisegol (e.e. offer digwyddiadau symudol, Oriel Colwyn, seilwaith digidol mewn llyfrgelloedd) neu'r seilwaith fel Partneriaeth Creu Conwy a'r Timau Tref, wedi galluogi cyfleoedd i gymryd rhan, cysylltu, rhwydweithio a chydweithio, ac wedi darparu cyfeillgarwch diwylliannol – undod a chefnogaeth o fewn hinsawdd ariannol heriol.

Mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi cefnogi dysgu a datblygiad sefydliadau diwylliannol ac wedi datblygu a gwneud defnydd o ddoniau pobl greadigol leol ac wedi helpu pobl i ddilyn gyrfa yn y celfyddydau.

Mae hefyd wedi galluogi darpariaeth leol amrywiol o weithgareddau diwylliannol cynhwysol. Mae cysylltu ag adnoddau eraill yn lleol a chydweithio ag eraill wedi helpu i ymestyn cyrhaeddiad ymgysylltu diwylliannol.

Mae cyfranogiad diwylliannol wedi galluogi pobl i deimlo'n fwy integredig yn eu cymuned leol, gan fynd i'r afael â theimladau o unigrwydd ac arwahanrwydd, ac adroddiadau o well hwyliau ac ymdeimlad o bwrpas. Cafodd cysylltu ag eraill a theimlo ymdeimlad o berthyn i grŵp effaith sylweddol ar iechyd meddwl a lles pobl.

Mae'r ymdeimlad o berthyn hwn hefyd yn ymwneud â lle, treftadaeth, a diwylliant. Mae gweithgareddau Creu Conwy wedi dod â gwell ymdeimlad o gysylltedd a balchder i'r gymuned ehangach. Maent hefyd wedi ysgogi cyfranogiad diwylliannol, gan ailddeffro ymgysylltu â chelf a chreadigrwydd.

Mae dinasyddion, partneriaid ac artistiaid yn teimlo rhwystredigaeth amlwg o ran colli cyfleoedd i hyrwyddo gweithgareddau neu eu cysylltu yn well. Mae hon yn thema ar bob lefel o ddarpariaeth, boed yn weithgareddau cymunedol penodol, gwaith Timau Tref, neu weithgareddau mwy strategol.

Heb farchnata a chyfathrebu effeithiol, mae perygl y bydd anghydraddoldeb o ran cyfleoedd ymhlith dinasyddion i gymryd rhan a chael budd o weithgareddau diwylliannol.

Nid oedd Timau Trefi yn teimlo'n gysylltiedig â'i gilydd- eu bod yn gweithredu ar wahân. Byddent yn croesawu mwy o leoedd ar gyfer rhwydweithio, rhannu gwybodaeth, a chynllunio ac archwilio cyfleoedd i gysylltu ac integreiddio gweithgareddau.

Yn yr un modd, roedd artistiaid yn gweld gwerth mewn bod yn ymwybodol o'r hyn y mae artistiaid eraill yn ei wneud a gyda phwy, er mwyn iddynt allu cydweithio a chysylltu a gwella eu heffaith gyfunol.

Ar lefel strategol, gwelodd aelodau Partneriaeth Creu Conwy werth cynhenid mewn cael gofod i rannu gwybodaeth. Roeddent yn teimlo, fodd bynnag, nad ydynt yn arwain diwylliant yn strategol yng Nghymru, bod angen lle ar gyfer cysylltiadau strategol ac integreiddio a'u datblygu o fewn ac ar draws partneriaethau.

Yn gysylltiedig â hyn, teimlwyd y byddai mwy o adrodd straeon – yr arfer o ddefnyddio naratifau i gyfleu gwybodaeth, gwerthoedd, a phrofiadau o ddiwylliant – a byddai adrodd straeon arbennig o effeithiol yn erbyn cefndir o bwysau ariannol o gymorth.

Cydnabuwyd bod cryn dipyn o'r gweithgarwch wedi'i alluogi gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Er bod hyn wedi ysgogi gweithgarwch a chysylltiadau diwylliannol, mae pryder na fydd hyn yn cael ei gynnal na'i ddatblygu heb fuddsoddiad parhaus. Yn ogystal â hyn, mae mynd ar drywydd cyllid grant, cadw at ofynion cymhleth cyllidwyr sy'n mynd a llawer o amser, a rheoli'r ansefydlogrwydd y mae hyn yn ei ddarparu, yn peryglu'r cyfle i wreiddio gweithgaredd diwylliannol fel rhan annatod o Gonwy am genedlaethau i ddod.

Mae cefnogaeth wleidyddol ac uwch arweinwyr yn allweddol i alluogi optimeiddio effaith Creu Conwy dros y tymor byr, canolig, a hir ar lefel weithredol a strategol. Mae rôl i'r Cyngor ei chwarae mewn galluogi, cynnull, cysylltu, cydlynu, a chydweithio.

Yn yr adran ganlynol, rydym yn nodi tri argymhelliad i'w hystyried gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n anelu at adeiladu ar y sylfeini cryf a ddatblygwyd gan Creu Conwy.

## Argymhellion

Mae'r argymhellion canlynol yn nodi cyfres o gamau gweithredu a allai helpu i ddarparu llwyfan i Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy arwain y ffordd o ran galluogi ecosystem ddiwylliannol lewyrchus a sicrhau bod buddion diwylliant yn cael eu gwireddu am genedlaethau i ddod.

Mae'r argymhellion yn ymateb i themâu a nodir yn y gwerthusiad.

Argymhelliad 1: **Bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cychwyn ac yn arwain sgyrsiau am ddatblygiad corff diwylliannol rhanbarthol, tebyg i Gymdeithas Celfyddydau Gogledd Cymru gynt, gyda'r nod o feithrin, datblygu a hyrwyddo gweithgaredd diwylliannol ar draws Gogledd Cymru.**

Mae llawer o weithgarwch diwylliannol yn digwydd ar draws Gogledd Cymru a photensial enfawr i gydgysylltu a datblygu hyn yn well a sicrhau canlyniadau gwell i ddinasyddion, cymunedau, artistiaid a sefydliadau diwylliannol. Mae hyn yn arbennig o amserol gyda datblygiad mwy o weithio rhanbarthol trwy Bartneriaeth Ymgysylltu Dinesig Gogledd Cymru, sy'n ceisio cael gwared ar rai o'r cymhlethdodau yn y ffyrdd presennol o weithio ac sy'n ysgogi cydweithio a newid parhaus trwy ganolbwyntio ar well cydgysylltu, rhannu adnoddau, a datblygu ymrwymiad clir ar y cyd i feithrin seilwaith partneriaeth ar draws Gogledd Cymru.

Argymhelliad 2: **Meithrin diwylliant partneriaeth wleidyddol a strategol sy'n croesawu ac yn gwerthfawrogi diwylliant, sy'n glir ynghylch ei bwrpas, ac sy'n atebol am y rhan y mae'n ei chwarae.**

Mae cefnogaeth wleidyddol ac uwch arweinwyr yn allweddol i alluogi optimeiddio effaith Creu Conwy dros y tymor byr, canolig, a hir ar lefel weithredol a strategol. Mae rôl i uwch arweinwyr y Cyngor ar draws portffolios i alluogi'n strategol, cynnull, cysylltu, cydlynu, a chydweithio o fewn ac ar draws y dirwedd partneriaeth ranbarthol i gynyddu'r potensial ar gyfer diwylliant.

Argymhelliad 3: **Gwell gweithgarwch cysylltu, hyrwyddo ac adrodd straeon fel bod cydraddoldeb o ran cyfle ac effaith, ar bob lefel, yn cael ei optimeiddio.**

Bydd cysylltu gweithgarwch (yn strategol ac yn weithredol) a chreu a rhannu straeon y bydd gweithwyr, rhanddeiliaid, partneriaid (posibl) a dinasyddion yn uniaethu â nhw, yn cefnogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i helpu i adeiladu hunaniaeth gref, meithrin ymgysylltiad a chysylltiad emosiynol o amgylch diwylliant, integreiddio cyfleoedd yn well, bod yn fwy effeithlon gydag adnoddau, a thrwy hynny, galluogi mwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfer pobl a lleoedd Conwy.



© Millie Hulme




© Oriel Colwyn






**Sganiwch i wylio ffilm wedi'i hanimeiddio yn crynhoi canfyddiadau'r gwerthusiad neu cliciwch yma.**

COMMUNITAS CYMRU


Dr Rachel Hughes — DOTIAU EXPLORING • CONNECTING • CREATIVELY

Ena Lloyd — **Ena Lloyd Consulting & Coaching**

Tanya Nash — Future Clarity


**Ebrill 2025**
**This document is also available in English**